

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Etholiadau

Rhagfyr 2021

1. Cefndir

1. Ar 9 Medi 2021, gosododd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil Etholiadau, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 14 Medi 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod. Gosododd y Pwyllgor Busnes derfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 4 Tachwedd 2021, yn dilyn hynny, estynnwyd y dyddiad i 16 Rhagfyr 2021. Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 6 Hydref.
3. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y ddau bwyllgor ar 12 Hydref gyda gwybodaeth yn ymwneud â gwelliannau a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar 16 Medi.

2. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae paragraff 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 28 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 29 i 41 yn nodi darpariaethau pellach y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae



paragraffau 42 i 47 yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil ar lefel y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.

5. Mae paragraff 52 yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru nad yw'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil ar lefel y DU. Yn ôl y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, er ei fod yn gweld manteision ymdrin â rhai o'r materion yn y Bil hwn ar gyfer etholiadau datganoledig, ei ddewis ef yw gwneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd maes o law.

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 7, 12, 16, 17, 18, 22, 23, 24, 25 ac Atodlen 4 gan eu bod yn ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru, ac mewn rhai achosion yn cael effaith uniongyrchol arnynt.

7. "Etholiadau datganoledig Cymru" yw'r term cyfunol ar gyfer y canlynol:

- a. etholiadau'r Senedd,
- b. is-etholiadau'r Senedd,
- c. etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a
- d. refferenda a gynhelir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu'r rheini sy'n ymwneud â threfniadau gweithredol awdurdodau lleol.

Cymal 7 ac Atodlen 4: Dylanwad gormodol

8. Mae Adran 115 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") yn egluro'r arfer llwgr o ddylanwad gormodol. Mae Cymal 7 yn egluro'r gweithgareddau sy'n gyfystyr â dylanwad gormodol drwy ddiwygio'r adran honno o Ddeddf 1983.

9. Ym mharagraff 7 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan eu bod yn ymwneud â chynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ac ag analluogrwydd sy'n ymwneud ag ethol rhywun i swydd aelod o'r Senedd neu i swydd etholedig mewn Lywodraeth Leol yng Nghymru, neu ddal swydd o'r fath."

Cymal 12: Y Comisiwn Etholiadol

10. Mae cymal 12 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") drwy fewnosod adrannau newydd sy'n darparu ar gyfer cyflwyno 'Datganiad Strategaeth a Pholisi' a fydd yn nodi canllawiau y mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'n ofynnol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y datganiad drafft, i'r graddau y mae'r drafft yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru.

11. Yn y Bil, caiff swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol 'sydd wedi'u datganoli i Gymru' eu disgrifio fel y swyddogaethau (i'r graddau nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006) sy'n ymwneud ag:

- i. etholiadau cyffredinol Aelodau o'r Senedd;
- ii. is-etholiadau ar gyfer seddi etholaethol y Senedd;
- iii. etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; a
- iv. refferenda a gynhelir o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (refferenda sy'n ymwneud â threfniadau swyddogion awdurdodau lleol).

12. Ym mharagraff 12 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan y bydd angen i'r Comisiwn Etholiadol roi sylw i'r Datganiad Strategol a Pholisi wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru.."

Cymalau 16, 17 a 18: Gwariant tybiannol

13. Mae cymal 16 yn diwygio adran 90C o Ddeddf 1983 drwy egluro nad oes ond rhaid i ymgeiswyr roi gwybod am fuddion mewn nwyddau y maent wedi'u defnyddio, neu wedi cyfarwyddo rhywun arall i'w defnyddio, ac felly nid yw'n cynnwys cyfrifoldeb am fuddion mewn nwyddau nad oedd yr ymgeisydd yn gwybod amdanynt.

14. Mae cymal 17 yn diwygio'r darpariaethau mewn cyfraith etholiadol i ddarparu y caiff y Comisiwn Etholiadol baratoi canllawiau ar gyfer ymgeiswyr mewn perthynas â threuliau etholiad. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn glir y gall y

canllawiau ymdrin â chymhwyso'r rheolau mewn perthynas â threuliau yr eir iddynt at ddibenion etholiad ymgeisydd (p'un a ydynt yn "dreuliau etholiad" ai peidio).

15. Mae cymal 18 yn diwygio adran 73 o Ddeddf 1983 (a darpariaethau cyfatebol mewn cyfraith etholiadol) fel nad oes rhaid i asiant yr etholiad dalu am dreuliau yr eir iddynt gan drydydd parti awdurdodedig, gan ddarparu y gall y trydydd parti dalu am y treuliau hynny.

16. Mewn perthynas â chymalau 16, 17 a 18, dywed y Memorandwm:

“Mae cymal 16(1) o'r darpariaethau hyn sy'n diwygio adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwyso'r rheolau ar wariant ymgyrchu ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol datganoledig yng Nghymru” [paragraff 16 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol]

“Mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 17(2) gan fod y darpariaethau hyn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.” [paragraff 20 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol]

“Mae cymal 18 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Adran 73 o PPERA i egluro bod yn rhaid i'r treuliau fod wedi'u hawdurdodi. Byddai diwygiadau o'r fath sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig unigol o fewn cymhwysedd y Senedd.” [paragraff 21 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol].

Cymalau 22 i 25: Cyllid gwleidyddol

17. Ym mharagraff 24 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

“Ar hyn o bryd, caiff ymgyrchwyr trydydd parti tramor wario'n gyfreithlon ar etholiadau'r DU o dan drothwyon cofrestru ymgyrchwyr trydydd parti cydnabyddedig, a dim ond ar ôl i'r trothwyon gael eu pasio y daw'r gweithgarwch hwn yn anghyfreithlon. Dim ond grwpiau/unigolion yn y DU neu etholwyr tramor cofrestredig sy'n cael cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchwyr trydydd parti.”

- 18.** Mae cymal 22 yn mewnosod adran 89A newydd yn Neddf 2000 i ddileu'r posibilrwydd o wariant cyfreithiol gan ymgyrchwyr trydydd parti tramor sydd o dan y trothwy cofrestru ond yn uwch na'r swm 'de minimis', sef £700.
- 19.** Mae cymal 23 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddiwygio adran 88(2) o Ddeddf 2000 drwy ychwanegu, dileu neu amrywio'r disgrifiadau o "drydydd partïon".
- 20.** Mae cymal 24 yn diwygio gwahanol adrannau o Ddeddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr trydydd parti hysbysu'r Comisiwn Etholiadol os bydd lefel y gwariant yn is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd, gan greu system ddwy haen ar gyfer cofrestru i bob pwrpas.
- 21.** Mae cymal 25 yn diwygio adran 94(6) o Ddeddf 2000 i ddarparu y bydd ymgyrchwyr trydydd parti a phleidiau gwleidyddol sy'n cydweithio ar ymgyrch ar y cyd yn rhoi gwybod am unrhyw wariant cysylltiedig ac yn nodi'r partïon sy'n rhan o'r trefniant.
- 22.** Ym mharagraff 28 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Gallai Senedd Cymru ddeddfu yn y maes hwn mewn perthynas â gwariant ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig annibynnol."

Darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer

- 23.** Yn ychwanegol at y cymalau y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r cymalau pellach y mae o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer hefyd.

Cymal 11 ac Atodlen 7: Cymhwysedd Pleidleisio ac Ymgeisyddiaeth Dinasyddion Ewropeaidd

- 24.** Mae cymal 11 yn rhoi effaith i Atodlen 7, sy'n diwygio hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE. Mae'r Atodiad i Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yn darparu na ofynnwyd am gydsyniad ar gyfer cymal 11 ac Atodlen 7. Fodd bynnag, mae paragraff 9 o'r Memorandwm yn nodi:

"Er mai dim ond i etholiadau a gadwyd yn ôl y bwriedir i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys, mae Atodlen 7 o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn y fath fodd fel bod y

darpariaethau sy'n gymwys i'r etholfraint ddatganoledig yn cael eu diddymu, gan wneud newidiadau felly o ran y rhai sydd â hawl i gofrestru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd a phleidleisio ynddynt. Mae newidiadau i'r darpariaethau i gywiro'r effeithiau anfwriadol ar etholiadau datganoledig Cymru yn cael eu trafod gyda Llywodraeth y DU."

25. Mae Atodlen 7 yn ymwneud â diwygio'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, ond ym mharagraff 359 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, nodir fel a ganlyn:

"This change will flow through to all elections that use the local government franchise and are reserved to the UK Government."

26. Yn ei llythyr ar 12 Hydref, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad fod gwelliannau i Atodlen 7 wedi'u gosod gan Lywodraeth y DU ar 16 Medi:

"Mae gwelliant 8 yn gwneud gwelliannau technegol i Atodlen 7, sy'n diwygio darpariaethau amrywiol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w gwneud yn glir nad yw newidiadau sy'n effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr yn effeithio ar y sefyllfa mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gwelliant 7 yn ganlyniadol ar welliant 8. Mae gwelliant 9 yn ei gwneud yn glir y bydd adran 49(5)(b)(iii)a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y byddai yn cael ei fewnosod gan baragraff 1(8)(a) o Atodlen 7) yn gymwys i Loegr yn unig. Mae gwelliant 10 yn ei gwneud yn glir y bydd adran 49(5)(b)(iv) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn parhau i fod yn gymwys, ond i Gymru yn unig.."

27. Mae'r llythyr hefyd yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r gwelliannau, ar yr amod y rhoddir sylw i'w phryderon ynghylch y darpariaethau yng Nghymal 11 ac Atodlen 7 y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. O ganlyniad, nid yw bellach yn ystyried bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hynny:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliannau hyn i gywiro canlyniadau anfwriadol darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.."

Yn fy marn i, gan mai effaith y gwelliannau yw newid yr etholfraint ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl yn unig, maent yn

gwneud darpariaeth sydd yn ganlyniadol i faterion y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac nid oes angen cydsyniad Senedd Cymru ar eu cyfer oherwydd yr esemptiad yn Rheol Sefydlog 29.1(i). Felly, nid wyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol..."

Cymal 13: Y Comisiwn Etholiadol

28. Mae cymal 13 yn mewnosod adran 13ZA newydd yn Neddf 2000 sy'n ehangu rôl Pwyllgor y Llefarydd i gynnwys pŵer i archwilio sut y mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyflawni ei ddyletswydd i roi sylw i'r Datganiad Strategol a Pholisi.

29. Mae'r Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil yn darparu na ofynnwyd am gydsyniad ar gyfer cymal 13. Fodd bynnag, yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Ym mharagraff 14 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi adroddiadau i Senedd Cymru, drwy Bwyllgor y Llywydd, ar ei amcangyfrifon a'i gyfrifon blynyddol a'i Gynllun Pum Mlynedd lle bo'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gan y gallai'r pŵer cyffredinol hwn i Bwyllgor y Llywydd oruchwylio swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol ymwneud ag etholiadau datganoledig, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd."

Cymalau 26 i 30 a 32 i 34: Bygwth

30. Ym mharagraff 29 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Mae'r Bil hwn yn cyflwyno sancsiwn etholiadol newydd ar ffurf gorchymyn anghymhwyso a osodir gan y Llysoedd, y bwriedir iddo roi amddiffyniad ychwanegol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau ac sy'n cyfrannu at y ddadl wleidyddol, ac atal unigolion rhag cyflawni gweithredoedd bygythiol..."

31. Mae cymal 32 yn darparu y caiff un o Weinidogion y DU, drwy offeryn statudol, ychwanegu at, amrywio neu hepgor troseddau o'r rhestr o droseddau a nodir yn Atodlen 8 i'r Bil y gellir gwneud gorchymyn anghymhwyso mewn perthynas â hwy.

32. Mae cymal 33 yn nodi'r swyddi etholiadol perthnasol y byddai'r gorchymyn anghymhwys yn gymwys iddynt, sy'n cynnwys Aelodau o'r Senedd, aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru a meiri.

33. Mae cymal 34 yn rhoi effaith i Atodlen 9, sy'n diwygio'n uniongyrchol adran 18 (effaith anghymhwys) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan olygu, os bydd Aelod o'r Senedd yn cael ei anghymhwys yn rhinwedd gorchymyn a wneir o dan gymal 27 o'r Bil, yna bydd yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd a daw ei sedd yn wag.

34. Mae'r Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil yn darparu na ofynnwyd am gydsyniad ar gyfer cymalau 32 i 34. Fodd bynnag, yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Ym mharagraff 33 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Mae gan y ddarpariaeth hon oblygiadau uniongyrchol i Aelodau'r Senedd, aelodau awdurdod lleol yng Nghymru a meiri. Felly ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd."

Cymalau 35 i 56: Argraffnod digidol

35. Mae cymal 35 yn nodi diffiniadau (mewn perthynas ag argraffnod digidol) o 'ddeunydd electronig', 'hyrwyddwr' a 'chyhoeddwr' sy'n sbarduno'r rhwymedigaeth i gymeradwyo'r deunydd. Mae'r cymal yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniadau.

36. Mae cymal 40 yn rhoi diffiniad o 'etholiad perthnasol' at ddibenion nodi deunydd electronig perthnasol, ac mae'r diffiniad yn cynnwys etholiadau Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau meiri.

37. Mae cymal 49 yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi canllawiau ar weithredu a gorfodi'r gyfundrefn argraffnod digidol, y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ei chymeradwyo.

38. Mae'r Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil yn darparu na ofynnwyd am gydsyniad ar gyfer y cymalau sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol. Fodd bynnag, yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. Ym mharagraff 38 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Ein barn ni yw bod y darpariaethau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd mewn perthynas ag etholiadau datganoledig, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gan mai eu bwriad yw

rheoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod y rhai sy'n darllen ac yn derbyn y deunydd etholiadol hwnnw'n deall pwy sydd wedi cyhoeddi deunydd ar-lein."

Cymalau 57 a 58: Cyffredinol

39. Mae cymal 57 yn rhoi'r pŵer i un o Weinidogion y DU ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Bil drwy offeryn statudol, neu unrhyw ddarpariaeth a ddiwygir gan y Bil mewn Deddfau eraill, o ganlyniad i ddiwygio neu ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Bil.

40. Mae cymal 58 yn darparu y bydd Senedd y DU yn talu am unrhyw gostau a ysgwyddir gan un o Weinidogion y DU o ganlyniad i'r Bil, ac am unrhyw gostau uwch a ysgwyddir o dan Ddeddf Seneddol bresennol os byddant yn codi o ganlyniad i'r Bil. Mae hefyd yn darparu y bydd unrhyw gynnydd mewn taliadau a wneir o Gronfa Gyfunol y DU yn cael ei dalu, os bydd y taliadau'n codi o ganlyniad i'r Bil ac yn cael eu hysgwyddo o dan Ddeddf Seneddol sy'n bodoli eisoes.

41. Mae'r Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil yn darparu na ofynnwyd am gydsyniad ar gyfer cymalau 57 a 58. Fodd bynnag, yn ôl paragraff 41 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad.

"Gellid defnyddio cymal 57 i ddiwygio unrhyw un o'r darpariaethau sy'n effeithio ar etholiadau datganoledig a gallai cymal 58 fod â goblygiadau posibl i Gronfa Gyfunol Cymru a chyllido etholiadau datganoledig ac felly maent yn ganlyniadol i ddarpariaeth ddatganoledig. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd."

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

42. Ym mharagraffau 43 i 47 o'r Memorandwm, nodir y rhesymau pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaethau datganoledig. Ym mharagraff 43 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, nodir fel a ganlyn:

"Rydym yn pryderu nad yw'r darpariaethau yn y Bil ynghylch atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd, yn gydnaws â'r trefniadau atebolrwydd, a sefydlwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, rhwng y Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd."

43. Mae paragraff 44 o'r Memorandwm yn nodi y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ymgynghori â'i rhanddeiliaid a "chyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd maes o law", yn hytrach na gwneud darpariaeth trwy Fil y DU. Yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru:

"...wedi ymrwymo i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn unol â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyfraith etholiadol gymhleth. Byddai'n well gennym gydgrynhoi'r gyfraith cyn belled ag y bo modd, ac yn bwysig ei gwneud yn ddwyieithog, o fewn deddfwriaeth y Senedd – yn hytrach na chaniatáu'r darnio pellach y byddai'r Bil hwn yn ei greu." [paragraff 46 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol]

3. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

44. Rydym yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'n briodol rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar y materion datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Etholiadau hwn. Mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylid rhoi cydsyniad. Credant y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno unrhyw gynigion i ddeddfu ar y materion datganoledig hyn, ac y dylai hyn fod yn destun craffu llawn gan y Senedd.

45. Mae dau Aelod o'r Pwyllgor, Joel James AS a Sam Rowlands AS, yn anghytuno â barn y mwyafrif, ac yn credu y dylid rhoi cydsyniad.